CYFRES A9

amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Astudiaethau Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 9: 1-30

ADNOD ALLWEDDOL
2 Corinthiaid 5: 17

Astudiaeth 1 Yr Apostol Paul – Ei Dröedigaeth

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
1 Timotheus 1: 12-16

Yn fuan ar ôl ei sefydlu, cododd problemau yn yr eglwys yn Jerwsalem. Cafodd Steffan, un o'i harweinwyr gorau, ei ladd wrth i bobl daflu cerrig ato. Yn Actau 8: 1, cawn ein cyflwyno i ddyn o'r enw Saul, a oedd yn bresennol pan gafodd Steffan ei ladd ac a oedd yn cytuno â'r dynion a'i lladdodd.

C **Darllenwch Actau 8: 3, ac ysgrifennu YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth ddechreuodd Saul ei wneud wedyn.**

2

C **Pa adnodau yn y Darlleniad o'r Beibl sy'n esbonio bod Saul wedi dal ymlaen i ymosod ar y Cristnogion?**

Adnodau

1

C **Gwnewch y Croesair i gael gwybod beth ddigwyddodd i Saul ar y ffordd i Ddamascus.**

8

Cliwiau i lawr

1. Bu Saul yn gwneud hyn tra oedd yn ddall.
3. Enw'r dyn a anfonwyd i helpu Saul.
5. Llais pwy glywodd Saul wrth agosau at Ddamascus?
6. Bu'r Iddewon yn cynllwynio i wneud hyn i Saul.
8. Dihangodd Saul o Ddamascus mewn un o'r rhain.
9. Am sawl diwrnod y bu Saul yn ddall?
10. Enw'r stryd yn Namascus.
11. Roedd y pyrth yn cael eu gwylio ddydd a _ _ _.

Cliwiau ar draws

2. Teitl a ddefnyddiwyd i gyfarch Saul. (adnod 17)
4. Syrthiodd rhywbeth fel _ _ _ oddi ar lygaid Saul.
6. Cafodd Saul y rhain oddi wrth yr archoffeiriad.
7. S _ _ __ _ __ Saul i'r llawr.
9. Enw'r dref lle bu Saul yn byw.
12. Gwelodd Saul hwn wrth agosau at Ddamascus.
13. Yn syth ar ôl cael ei olwg yn ôl, gwnaed hyn i Paul.



Cafodd Saul gyfarfod dramatig iawn gyda'r Arglwydd Iesu. Roedd yn golygu bod bywyd Saul yn troi wyneb i waered. Yn nes ymlaen, ysgrifennodd eiriau'r Adnod Allweddol.

C **Ysgrifennwch eiriau'r Adnod Allweddol.** 2

Yn Actau 13: 9, gwelwn fod gan Saul enw arall, sef Paul. Paul yw ei enw Rhufeinig, neu Ladin. Mae'n golygu 'bychan'.

Yn Actau 22: 3-21, mae Paul yn adrodd stori ei fywyd wrth dyrfa flin yn Jerwsalem. Dywed ei fod wedi gofyn dau gwestiwn i'r Arglwydd Iesu.

C **Mae un ohonyn nhw i'w weld yn Actau 22: 8.**
Ysgrifennwch y llall o Actau 22: 10. 1

C **Beth oedd ateb yr Arglwydd Iesu i'w ail gwestiwn?** 1

Felly, daeth yr 'Erlidiwr' yn 'Bregethwr'!

Ond, ni allai Paul ddileu'r hyn yr oedd wedi ei wneud cyn ei dröedigaeth. Roedd wedi achosi llawer o ddioddef i lawer o Gristnogion.

C **Ym mha adnod yn Actau 9: 10-16 y mae'r Arglwydd yn dweud y bydd Paul yn dioddef yn enw Crist?** Adnod 1

Y llefydd cyntaf y bu Paul yn pregethu'r Efengyl ynddynt oedd yr union synagogau yn Namascus lle'r oedd wedi bwriadu arestio'r Cristnogion!

C **Beth oedd Paul yn ei bregethu yn y synagogau?** 1

C **Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ynteu'n anghywir:-** 3

Roedd ofn Paul ar y disgyblion yn Jerwsalem pam gyrhaeddodd yn ôl. .....
Aeth Pedr â Paul at y lleill ac esbonio beth oedd wedi digwydd. .....
Dihangodd Paul i Galilea pan oedd pobl yn ceisio'i ladd. .....

Mae llawer o wersi i'w dysgu o'r Astudiaeth hon. Er enghraifft, fe welwn bod newid mawr yn digwydd ym mywyd rhywun pan fydd yn dod yn Gristion. Gwelwn hefyd nad yw bywyd bob amser yn hawdd i'r Cristion ond bod yr Arglwydd Iesu gyda ni bob amser i'n helpu pan fydd bywyd yn anodd.



Enw _____

DARLLENWCH
Actau 11: 19-26
13: 1-12

ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 13: 12

Astudiaeth 2 Yr Apostol Paul – Ei Deithiau

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen –
Rhufeiniaid 1: 15 a 16

Roedd pobl wedi taflu cerrig at Steffan i'w ladd oherwydd ei ffydd yng Nghrist. Roedd yr eglwys yn Jerwsalem yn cael ei herlid. Bu'n rhaid i rai Cristnogion ffoi am eu bywydau, ond roedden nhw'n sôn wrth bobl eraill am yr Efengyl ble bynnag yr oedden nhw'n mynd.



C **I ba dri lle (rhifau 1, 2, 3 ar y map) yr aeth pobl â'r Newyddion Da ar ddechrau'r Darlleniad o'r Beibl?**

1. P	2. C	3. A

3

C **Sut wnaeth pobl Antiochia ymateb i'r pregethu?**

1

Nid o achos grym na sancteiddrwydd y disgyblion y cafwyd y canlyniadau hyn, ond oherwydd bod llaw'r Arglwydd gyda nhw (a. 21) ac oherwydd gras Duw. Roedd Duw'n bendithio eu gwaith. Barnabas oedd un o'r dynion pwysicaf yn yr eglwys yn Jerwsalem. Yma, mae'n cael ei anfon i Antiochia.

C **Sut oedd Barnabas yn teimlo pan gyrhaeddodd i Antiochia a gweld yr holl gredinwyr newydd drosto'i hunan?**

1

C **Beth wnaeth Barnabas eu hannog i wneud?**

1

Nid diwedd y daith yw tröedigaeth – dechrau bywyd newydd yng Nghrist ydyw!

C **Pa fath o ddyn oedd Barnabas?**

1

C **Pam yr aeth Barnabas i Darsus?**

2

C **Am faint o amser fu Saul a Barnabas yn cwrdd â'r eglwys yn Antiochia?**

1

C **Beth wnaeth Paul a Barnabas yn Antiochia?** 1

Yr eglwys yn Antiochia oedd eglwys gyntaf y Cenhedloedd (pobl nad oeddent yn Iddewon) a dyma lle cafodd y credinwyr eu galw'n Gristnogion gyntaf. Gwaetha'r modd, mae'r gair Cristion wedi colli peth o'i ystyr erbyn hyn ac nid yw'n cael ei gadw ar gyfer gwir ddilynwyr Iesu Grist.

Ar ôl treulio blwyddyn yn Antiochia, cychwynnodd Paul a Barnabas ac Ioan Marc i fynd â neges Iesu Grist i ardaloedd newydd.

C **Darllenwch Actau 13: 1-12 ac ateb y cwestiynau a ganlyn.** 3

O ble y gwnaethon nhw hwylio?

I ba borthladd y gwnaethon nhw hwylio?

Beth wnaethon nhw yno?

Aeth y tri dyn ymlaen, ar draws yr ynys, o'r dwyrain i'r gorllewin. Byddai Barnabas yn nabod yr ynys yn dda gan mai un o Gyprus oedd e. (Actau 4: 36) 1

C **I ba dref y daethon nhw?**

Yma, daethon nhw ar draws dau ddyn gwahanol iawn ac roedd gan Paul wahanol ffyrdd o ddelio â nhw.
Roedd Elymas, a oedd hefyd yn cael ei alw'n Bar-Iesu, yn ddewin ac yn broffwyd gau.
Sergius Pawlus oedd llywodraethwr Rhufeinig ynys Cyprus. Roedd yn ddyn deallus. 1

C **Oddi wrth bwy yr oedd nerth Elymas yn dod, yn ôl Paul?**

Roedd Paul wedi'i lenwi â'r Ysbryd Glân pan siaradodd ag Elymas ac felly roedd yn gallu deall beth oedd gwir achos ei broblem.

C **Pam y gwnaeth Sergius Pawlus anfon am Barnabas a Saul?** 1

Ceisiodd Elymas ei atal rhag clywed Gair Duw achos roedd yn gwybod y gallai hyn olygu y byddai'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist.

C **Beth a welodd Sergius Pawlus a barodd iddo gredu'r Efengyl?** 1

C **Beth a glywodd Sergius Pawlus a barodd iddo synnu'n fawr?** 2

Hwn oedd y cyntaf y gwyddom i sicrwydd ei fod wedi cael tröedigaeth ar daith genhadol gyntaf Paul.
Roedd Duw wedi galw Paul i ddweud wrth bobl am Iesu, a oedd wedi newid ei fywyd ef. Mae'n rhaid ei bod yn deimlad braf iawn iddo pan ddaeth Sergius Pawlus yn Gristion.

Heddiw, mae Duw'n dal i ddefnyddio pobl sydd wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu i arwain eraill i gredu ynddo Ef.

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 13: 13-52

ADNOD
ALLWEDDOL
Actau 13: 49

Astudiaeth 3 Yr Apostol Paul - Pregethu

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen
Actau 28: 24 a 28

Aeth Paul a Barnabas ymlaen ar eu taith genhadol gyntaf. Ar ôl gadael Paffos aethant i dir mawr de Galatia.

1

C **Ar ôl cyrraedd Perga, ar lan y môr, pwy a'u gadawodd a mynd yn ôl i Jerwsalem?**

Aethant i mewn i'r tir, tua chan milltir i'r gogledd i Antiochia Pisidia. (Nid yr un Antiochia yw hwn â'r un lle dechreuodd eu taith yn Astudiaeth 2). Yn ôl eu harfer, aethant i'r synagog lle'r oedd Iddewon a phobl eraill. Cafodd Paul gyfle i siarad â'r bobl yn y synagog.



PREGETH GYNTAF PAUL. (Adnodau 16-41)

Dechreuodd Paul trwy olrhain hanes y genedl Iddewig yn ôl cyn belled â'r Brenin Dafydd gan bwysleisio mai Duw oedd wedi trefnu popeth. Yna, gwnaeth y cysylltiad rhwng yr addewid yn yr Hen Destament y byddai Duw'n anfon Meseia, un o ddisgynyddion uniongyrchol Dafydd, â'r hyn a oedd wedi digwydd i Iesu'n ddiweddar. Trwy wneud hynny, roedd yn profi mai Iesu yw'r Meseia (neu'r Crist).
Dyfynnodd Paul lawer o ddarnhau o'r Ysgrythurau er mwyn gwneud ei neges yn glir. Daeth â'i bregeth i ben trwy apelio'n uniongyrchol at ei wrandawyr.

1

C **Yn adnod 26, mae'r apostol Paul yn cyfeirio at un o gymeriadau'r Hen Destament. Pwy oedd hwn?**

C **Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau a ganlyn yn y bylchau a rhowch gylch o gwmpas pob un o'r atebion yn y CHWILAIR.**

1. O ba wlad yr arweiniodd Duw bobl Israel? .....
2. Am faint o flynyddoedd fuon nhw yn yr anialwch? .....
3. Faint o genhedloedd y gwnaeth Duw eu dinistrio yng Nghanaan? .....
4. Beth oedd enw'r proffwyd a oedd hefyd yn farnwr olaf Israel? .....
5. Pwy oedd brenin cyntaf Israel? .....
6. Pwy oedd ail frenin Israel? .....
7. Pwy oedd yn gyfrifol am ganiatáu lladd Iesu? .....

➤	T	A	T	T	G	D
O	FF	S	A	F	Y	E
DD	I	A	L	D	I	U
Y	A	M	I	I	TH	G
F	E	U	P	*	I	A
A	*	E	U	S	A	I
D	*	L	U	A	S	N

8

C **Trwy ddilyn y saethau a defnyddio'r llythrennau sydd heb eu defnyddio yn y Chwilair, chwiliwch am y neges oedd yn ganolog i bregeth Paul, sy'n dweud sut y cyflawnodd Duw ei addewid.** **2**

Soniodd Paul wrth y bobl am yr hyn a ddywedodd Ioan Fedyddiwr am Iesu.



C **Beth oedd Ioan wedi'i ddweud?** **1**

C **Pwy, yn ôl Paul, oedd heb ddeall pwy oedd Iesu? (Adnod 27)** **1**

Roedd gan y bobl gymaint o ddiddordeb, fel y gwnaethon nhw wahodd Paul i bregethu wrthyn nhw eto. Roedd rhai hyd yn oed yn dal i drafod y pethau hyn gydag ef ar ddiwedd y gwasanaeth yn y synagog. (Adnodau 42 a 43)

C **Beth wnaeth Paul a Barnabas eu hannog i'w wneud?** **1**

Yr wythnos wedyn, daeth tyrfa enfawr i wrando ar Paul.



C **Beth oedd ymateb yr Iddewon pan welson nhw pa mor awyddus oedd y dyrfa i glywed beth oedd gan Paul i'w ddweud? (Adnod 50)** **3**

Gan fod y cenhadon wedi cael eu hel allan o Antiochia, lledaenodd yr Efengyl i fannau eraill.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

Roedd y Cristnogion (neu'r disgyblion) yn dal yn gryf yn eu ffydd. **1**

C **Yn ôl adnod 52, â beth y cawson nhw eu llenwi?**

Yn Antiochia, credodd rhai pobl y Newyddion Da am Iesu, a chawsant eu hachub; gwrthododd pobl eraill y neges ac efallai na chawsant gyfle i'w chlywed eto. Meddyliwch yn ofalus am eich ymateb CHI i neges Duw. (Darllenwch Ioan 3: 36) **1**

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 14: 1-28

ADNOD
ALLWEDDOL
Marc 16: 20

Astudiaeth 4 Yr Apostol Paul – Ei Broblemau

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

1 Corinthiaid 1: 17-18

Aeth Paul a Barnabas ymlaen â'r daith genhadol gyntaf gan deithio i dair dinas arall. Enwau'r dinasoedd hyn oedd: Iconium, Lystra a Derbe.

C **Ysgrifennwch yr atebion i'r cwestiynau yn y blychau o dan y map.**



Ym mha ddinas oedd 'na synagog? (Adnod 1)

Ym mha ddinas wnaethon nhw aros am amser hir? (Adnod 3)

Pa ddinas a gafodd ei rhannu oherwydd yr Efengyl? (Adnod 4)

Enwch ddinasoedd Lycaonia. (Adnod 6)

Lle'r oedd y dyn cloff yn byw? (Adnod 8)

Lle cafodd Paul a Barnabas eu galw'n dduwiau? (Adnodau 11 a 12)

O ba ddinas wnaethon nhw ddychwelyd i Lystra? (Adnodau 20 a 21)

Cafodd y cenhadon, Paul a Barnabas, amser caled yn Iconium. (Adnodau 1-6)

C **Enwch ddau grŵp, neu ddwy genedl o bobl oedd yn byw yn Iconium.**

1

2

C **Sut wnaethon nhw ddangos eu bod yn gwrthwynebu Paul a Barnabas?**

Yn Lystra, pan iachaodd Paul y dyn cloff, cafodd hynny effaith syfrdanol ar y bobl baganaidd.

C **Beth ddechreuon nhw ei weiddi?**



3

C **Beth wnaethon nhw alw Paul a Barnabas?**

1

C **Sut oedden nhw'n mynd i anrhydeddu'r cenhadon?**

2

Doedd Paul a Barnabas ddim yn dymuno cael gwobr nac anrhydedd am wella'r dyn cloff. Duw oedd wedi'i wella ac roedd rhaid i'r clod i gyd fynd iddo ef.

C **Yn eich GEIRIAU EICH HUNAN, rhowch grynodeb o'r hyn a ddywedodd Paul wrth y dyrfa yn adnodau 15-17.**

2

Ar ôl treulio peth amser yn Derbe, aeth Paul a Barnabas yn ôl y ffordd y daethant. Ym mhob man, buont yn annog y Cristnogion i fod yn ffyddlon i Iesu Grist, er bod hynny'n galed weithiau.

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

Hyd heddiw, mae Cristnogion i fod i rannu'r Newyddion Da am Iesu gydag eraill. Efallai, un diwrnod, bydd Iesu'n galw arnoch chi i fod yn genhadwr ac y byddwch yn mynd â'r Newyddion Da i wledydd eraill.

2

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120